Allwedd Band Eang Cymru

Meini Prawf Cymhwysedd ac Amodau'r Cynllun

Nod rhaglen Cyflymu Cymru oedd darparu cysylltiad band eang ffeibr cyflym iawn ar gyfer y rhan fwyaf o adeiladau nad oeddent wedi eu cynnwys yng nghynlluniau'r sector preifat.

Mae cynllun Allwedd Band Eang Cymru yn ategu'r rhaglen hon, gan roi cymorth grant ar gyfer y gwaith o osod opsiynau band eang amgen a all ddarparu cyflymder lawrlwytho cyflym iawn sefydlog.

Mae'r cynllun ar agor i unigolion, busnesau a safleoedd y 3ydd Sector yng Nghymru os na all gwasanaeth band eang eu safle yng Nghymru (os oes ganddynt fand eang o gwbl) gynnig cyflymder lawrlwytho sydd o leiaf ddwywaith y cyflymder presennol. Rhaid i'r gwasanaeth newydd a gynigir sicrhau cyflymder lawrlwytho o 10 Megabit yr eiliad o leiaf. Ni fydd ceisiadau am gyflymder lawrlwytho sy'n llai na 10 Megabit yr eiliad yn cael cymorth gan y cynllun.

Dylai ymgeiswyr posibl ystyried hefyd y gallai fod modd iddynt elwa ar delerau ac amodau mwy ffafriol unwaith y bydd opsiynau cystadleuol ar gael yn dilyn proses uwchraddio yn eu hardal o dan raglen Cyflymu Cymru. Dylech ond wneud cais am grant o dan Allwedd Band Eang Cymru os ydych yn sicr eich bod wedi dewis yr opsiwn sy'n gweddu orau i'ch anghenion chi dros dymor llawn eich rhwymedigaeth i'ch darparwr gwasanaeth.

Bydd y cynllun yn cynnig grant dwy haen a fydd yn rhoi cymorth grant tuag at gostau cymwys am gysylltiad band eang a fydd yn cynyddu'r cyflymder lawrlwytho yn sylweddol. Mae categorïau'r grantiau fel a ganlyn:

Grant £400 ar gyfer pecynnau band eang 10 Megabit yr eiliad ac 20 Megabit yr eiliad.

Grant £800 ar gyfer pecyn band eang cyflym iawn (30 Megabit yr eiliad ac yn uwch).

Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn nodi'r Meini Prawf Cymhwysedd gofynnol ar gyfer pob categori ymgeisio.

I fod yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol gan gynllun Allwedd Band Eang Cymru, bydd angen i chi fodloni meini prawf y categori priodol ar gyfer eich cais.

Os ydych chi'n ymgeisio fel Preswylydd Unigol ewch i dudalen 2.

Os ydych chi'n ymgeisio fel Menter neu Sefydliad 3ydd Sector ewch i dudalen 3.

Os ydych chi'n ymgeisio fel rhan o Gynllun Cymunedol ewch i dudalen 4.

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd ddarllen amodau cyffredinol y Cynllun, sydd ar dudalen 5 i 7.

Meini Prawf Cymhwysedd ac Amodau'r Cynllun ar gyfer Preswylwyr Unigol

1. Ar gyfer un annedd preswyl sefydlog wedi'i lleoli yng Nghymru.
2. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i ofyn am gopi o'ch Treth Gyngor ar gyfer y safle gosod.
3. Rhaid ichi beidio â gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd na'ch cysylltiad band eang presennol ac nad yw eich cyfarpar yn gallu ymdopi â'r newid sylweddol gofynnol (o leiaf ddwywaith eich cyflymder lawrlwytho presennol). Ni fydd ceisiadau am gyflymder lawrlwytho sy'n llai na 10 Megabit yr eiliad yn cael cymorth gan y cynllun.
4. Ar ôl derbyn eich ffurflen gais, bydd Llywodraeth Cymru yn gwirio'r band eang sydd ar gael ichi.
5. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i wrthod ceisiadau os gwelir bod cyflymder lawrlwytho band eang sy'n uwch na'r cyflymder gofynnol o 10 Megabit yr eiliad ar gael i'r safle.
6. Dylid anfon ceisiadau drwy e-bost at bandeang@llyw.cymru. Rhaid i'r rhain gael eu hanfon gan yr ymgeisydd, nid gan drydydd parti.
7. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn ichi esbonio pam rydych wedi dewis eich darparwr.

Nawr, ewch i dudalen 5.

Meini Prawf Cymhwysedd ac Amodau'r Cynllun ar gyfer Mentrau a Sefydliadau 3ydd Sector

1. Rhaid i'ch busnes neu eich safle 3ydd sector fod yng Nghymru.
2. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i ofyn am gopi o'ch Treth Gyngor neu eich Ardrethi Busnes ar gyfer y safle gosod.
3. Dros y 3 blwyddyn ariannol ddiwethaf, ni ddylech fod wedi derbyn mwy o gymorth ariannol cyhoeddus na'r terfynau de minimis uchaf ar gyfer eich sector gweithredu fel a ganlyn:

Sector	Terfyn de minimis
Cludiant ar y ffordd	€100,000
Amaethyddiaeth	€20,000
Pysgodfeydd	€30,000
Pob sector arall heblaw glo	€200,000

4. Os yw cyllid o gynllun Allwedd Band Eang Cymru yn golygu fod y terfyn de minimis perthnasol yn cael ei groesi, ni fyddwn yn darparu'r arian.
5. Bydd Mentrau a Sefydliadau 3ydd Sector sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW yn cael cynnig swm **net** y grantiau £400 ac £800.
6. Rhaid ichi beidio â gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd na'ch cysylltiad band eang presennol ac nad yw eich cyfarpar yn gallu ymdopi â'r newid sylweddol gofynnol (o leiaf ddwywaith eich cyflymder lawrlwytho presennol). Ni fydd ceisiadau am gyflymder lawrlwytho sy'n llai na 10 Megabit yr eiliad yn cael cymorth gan y cynllun.
7. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i wrthod ceisiadau os gwelir bod cyflymder lawrlwytho band eang sy'n uwch na'r cyflymder gofynnol o 10 Megabit yr eiliad ar gael i'r safle.
8. Dylid anfon ceisiadau drwy e-bost at bandeang@llyw.cymru. Rhaid i'r rhain gael eu hanfon gan yr ymgeisydd, nid gan drydydd parti.
9. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn ichi esbonio pam rydych wedi dewis eich darparwr.

Nawr, ewch i dudalen 5.

Meini Prawf Cymhwysedd ac Amodau'r Cynllun ar gyfer Cynlluniau Cymunedol

1. Diffinnir cymunedau fel clwstwr o safleoedd, yn cynnwys mwy nag un safle gydag unrhyw gyfuniad o Unigolion, Mentrau neu Sefydliadau 3ydd Sector sy'n cyfuno eu lwfans ariannol i brynu cyswllt band eang cymunedol.

2. Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd mewn cynllun cymunedol gyflwyno ffurflen gais wedi'i llenwi a chadarnhau bod pwynt 4 isod yn wir amdanynt.

3. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i ofyn am gopi o'ch Treth Gyngor neu eich Ardrethi Busnes ar gyfer y safle gosod.

4. Rhaid ichi beidio â gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd na'ch cysylltiad band eang presennol ac nad yw eich cyfarpar yn gallu ymdopi â'r newid sylweddol gofynnol (o leiaf ddwywaith eich cyflymder lawrlwytho presennol). Ni fydd ceisiadau am gyflymder lawrlwytho sy'n llai na 10 Megabit yr eiliad yn cael cymorth gan y cynllun.

5. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i wrthod ceisiadau os gwelir bod cyflymder lawrlwytho band eang sy'n uwch na'r cyflymder gofynnol o 10 Megabit yr eiliad ar gael i'r safle.

6. Rhennir cyfanswm cost gymwys y cynllun (fel y'i diffinnir ym mharagraff (h) o Amodau Cyffredinol y Cynllun) yn gyfartal rhwng pob un o'r ymgeiswyr heb groesi'r lefel uchaf o gymorth.

7. Rhaid gofyn am dri chynnig gan wahanol ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd. Rhaid cyflwyno un copi o bob cynnig ynghyd â'r ffurflenni cais wedi'u llenwi ar gyfer pob ymgeisydd.

8. Dylai'r cynnig cymunedol gan y darparwr gwasanaethau rhyngrwyd gynnwys y wybodaeth ganlynol o leiaf:

    i. Manylion llawn yr ardal sydd i'w chynnwys, ynghyd ag arolygon safle.

    ii. Manylion llawn nifer y safleoedd y bydd y cynnig yn berthnasol iddynt a chadarnhad nad oes yr un o'r safleoedd hynny wedi elwa ar isadeiledd band eang sydd wedi'i gyllido gan arian cyhoeddus.

    iii. Manyleb dechnegol fanwl o'r cyswllt sydd i'w gynnig i'r gymuned.

    iv. Dadansoddiad llawn o'r holl gostau sy'n gysylltiedig â darparu'r cyswllt band eang i'r gymuned.

    v. Os yw cyfanswm y gost yn uwch na'r arian cymorth sydd ar gael, bydd gofyn egluro sut yr ariennir y diffyg.

    vi. Manylion y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i ymgeiswyr yn y gymuned, yn cynnwys gwasanaethau, costau tanysgrifio misol, lefelau gwasanaeth, trefniadau cymorth i gwsmeriaid a threfniadau technegol, gweithredol a chynnal a chadw.

    vii. Manylion llawn cynaliadwyedd masnachol y cyswllt cymunedol, yn cynnwys gallu'r rhwydwaith i dderbyn tanysgrifiadau yn y dyfodol.

    viii. Manylion y manteision y bydd eich cyswllt yn eu creu i'r gymuned.

    ix. Mae Llywodraeth Cymru'n cadw'r hawl i beidio â darparu cyllid ar gyfer cyswllt cymunedol os na ellir dangos ei fod yn fasnachol gynaliadwy gan y darparwr gwasanaeth.

Os ydych chi'n Fenter neu'n Sefydliad 3ydd Sector sy'n ymgeisio fel rhan o gymuned, bydd angen i chi hefyd gydymffurfio â'r gofynion cymorth de minimis fel y disgrifir ar dudalen 3.

Nawr, ewch i dudalen 5.

Amodau Cyffredinol y Cynllun – ar gyfer pob ymgeisydd

a. Ni ddylech fod wedi derbyn cyllid cyhoeddus yn y gorffennol ar gyfer cysylltiad band eang yn y cyfeiriad gosod dan sylw. Byddai hyn yn cynnwys cyllid cyhoeddus gan gyrff fel Llywodraeth Cymru, Awdurdod Lleol neu unrhyw gorff arall.

b. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn ichi sicrhau band eang sydd o leiaf ddwywaith y cyflymder lawrlwytho sydd ar gael ichi ar hyn o bryd, ac sy'n 10 Megabit yr eiliad o leiaf.

c. Rhaid i ymgeiswyr dderbyn sicrwydd gan eu Darparwr Gwasanaeth Rhyngrwyd ei fod yn gallu ymrwymo i gyflenwi'r gwasanaeth sylweddol well i'r adeilad. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu dyfynbris gan y cyflenwr y maent yn ei ddewis a fydd yn cyd-fynd â'r ffurflen gais.

d. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi arian tuag at wasanaeth sy'n darparu cyflymder band eang arafach na'i gyflymder ar hyn o bryd.

e. Caiff cymorth ar gyfer gwasanaeth band eang cymwys ei gyfyngu i un dyfarniad y safle.

f. Os derbynnir ceisiadau unigol (gan aelwydydd unigol, Mentrau neu Sefydliadau 3ydd Sector) ar gyfer ardal lle mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ariannu cynllun cymunedol, bydd gofyn i'r ymgeiswyr ymuno â'r cynllun cymunedol os oes modd. Bydd unrhyw amrywio ar yr amod hwn yn digwydd yn ôl disgresiwn Llywodraeth Cymru yn unig.

g. Bydd uchafswm y cymorth a roddir i bob ymgeisydd tuag at gostau cymwys yn unol â lefel y grant y gwnaed cais amdano ac a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Gall ymgeiswyr brynu opsiynau sy'n costio mwy na'r uchafswm cymorth; ond ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu mwy na'r uchafswm ar gyfer y grant y gwnaed cais amdano. Mae Llywodraeth Cymru, yn ôl ei disgresiwn, yn cadw'r hawl i amrywio'r symiau hyn.

h. Diffinnir costau cymwys fel unrhyw gostau cyfalaf rhesymol am osod a sefydlu'r cyswllt yn y lle cyntaf. Bydd hyn yn cynnwys yr elfennau isod, er nad yw'n gyfyngedig iddynt:

    i. Ffioedd gosod.

    ii. Cyfarpar allanol cwsmeriaid megis antenâu diwifr neu ddysgl lloeren.

    iii. Cyfarpar seilwaith allanol a rennir megis gwaith peirianneg sifil, mastiau diwifr/symudol/lloeren, gosod cyfarpar diwifr/symudol/lloeren ar adeileddau sy'n bodoli, darparu cyflenwadau pŵer, ceblau ffibr a chopr, seilwaith arall a rennir ar gyfer unrhyw fath o dechnoleg.

    iv. Costau sefydlu ac arolygu.

    v. Costau cyfarpar ar gyfer safle'r cwsmer megis llwybrydd, pwynt terfynu rhwydwaith neu gyfarpar arall tebyg.

    vi. **Ni fydd** costau cymwys yn cynnwys cyfrifiaduron personol, serfwyr, cyfarpar TG perthnasol arall, ffonau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VOIP) na modiwlau teledu.

    vii. Er mwyn bod yn gwbl glir, nid yw'r cynllun yn cynnwys cymorth ariannol ar gyfer costau tanysgrifio misol.

    viii. Bydd Mentrau a Sefydliadau 3ydd Sector sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW yn cael cynnig swm **net** y grantiau £400 ac £800.

i. Rhaid i'r contract rhyngoch chi a'ch darparwr gwasanaeth barhau am gyfnod o 12 mis o leiaf.

j. Os na fyddwch yn bodloni telerau'r contract ar bwynt (i) uchod, yna bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i adennill yr arian, ee os penderfynwch newid darparwr, am ba bynnag reswm, o fewn cyfnod gofynnol y contract ym mhwynt (i) uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i fynnu'r arian yn ôl. Os bydd y cyflymder a amlinellir yn eich contract gyda'r Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd yn cael ei leihau yn ystod tymor gofynnol o 12 mis, caiff Llywodraeth Cymru adennill yr arian yn yr achos hwnnw hefyd.

k. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol er mwyn gwerthuso a dilysu eich cais am gymorth ariannol dan y cynllun.

l. Rhaid i'r cyfarpar rhyngrwyd a osodir drwy'r cynllun talebau aros ar y safle ac nid oes modd ei symud i rywle arall.

m. Fel yr Ymgeisydd, bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth ar gais rhesymol Llywodraeth Cymru.

n. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i amrywio'r cynnig o gymorth ariannol ar sail y wybodaeth a ddarparwyd ac a gadarnhawyd fel rhan o'r broses arfarnu.

o. Os na ellir dilysu'r costau a gyflwynwyd gan Ddarparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd fel rhai rhesymol sy'n cyd-fynd â rhestrau prisiau cyhoeddedig ar-lein y Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd neu mewn unrhyw gyhoeddiad arall, neu yn ôl costau y bydd darparwyr gwasanaeth eraill fel arfer yn eu codi am gyfarpar tebyg (yn ôl safonau arferol y diwydiant), mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i newid symiau'r talebau.

p. Ni ddylech gysylltu â'ch Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd i drefnu'r gwaith o osod eich gwasanaeth hyd nes y byddwch chi wedi derbyn llythyr cynnig arian gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau bod cynnig o gymorth wedi'i wneud (ac yn gwybod faint yw'r swm o gymorth ariannol a roddir, a allai fod yn wahanol i'r swm yr ymgeisiwyd amdano).

q. **NI DDYLECH ymrwymo i gontract gyda'ch Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd tan y byddwch chi wedi derbyn, llofnodi a dychwelyd eich llythyr cynnig arian i Lywodraeth Cymru. Bydd unrhyw waith gosod a gyflawnir cyn hyn yn gwneud y cais yn un ôl-weithredol. Ni all Llywodraeth Cymru gefnogi ceisiadau ôl-weithredol.**

r. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i derfynu neu amrywio telerau'r cynllun mewn unrhyw ffordd arall heb rybudd pellach.

s. Bydd gofyn i chi ad-dalu'r holl arian i Lywodraeth Cymru ar unwaith os oes unrhyw ran o'r wybodaeth a roddoch i ni yn eich cais neu i gefnogi eich cais yn anghywir neu'n gamarweiniol, yn cynnwys unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r swm o gymorth de minimis a dderbynioch lle bo'n berthnasol, er na chaiff ei gyfyngu i hynny.

t. Os yw eich cais yn llwyddiannus, caiff taliadau gan Lywodraeth Cymru i'r Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd eu talu ar eich rhan chi fel defnyddiwr terfynol y gwasanaeth. Ni fydd y taliad yn gyfystyr â chymorth gwladol i'r Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd. Ni fydd y taliad hwn yn creu contract rhwng Llywodraeth Cymru a'r Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd.

I weld yr amodau a'r meini prawf talu ewch i dudalen 7.

Yr amodau talu ar gyfer pob ymgeisydd

1. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn darparu arian ar gyfer ôl-geisiadau a/neu hawliadau ôl-weithredol.
2. Rhaid bodloni'r amodau talu yn sgil derbyn Llythyr Cynnig Arian a gosod eich cyswllt band eang fel rhan o'ch cais am daliad.
3. Cyfrifoldeb y sawl sy'n derbyn y Llythyr Cynnig Arian yw llenwi a chyflwyno'r holl ddogfennaeth ofynnol, a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ei derbyn, er mwyn iddi allu gwneud taliad.
4. Dylai'r sawl a dderbyniodd y Llythyr Cynnig Arian lenwi, llofnodi a chyflwyno'r ffurflen gais gyda'r dystiolaeth angenrheidiol i'w chefnogi. Rydym yn derbyn ffurflenni cais ar-lein ond rhaid eu hanfon i gyfeiriad e-bost Llywodraeth Cymru bandeang@llyw.cymru drwy gyfeiriad e-bost yr ymgeisydd ei hun.
5. Bydd derbynwyr grantiau nad ydynt yn cyflwyno'r dogfennau gofynnol yn agored i dalu cost lawn y gwaith gosod i'r darparwr gwasanaeth.
6. Drwy wneud cais, rydych yn cytuno eich bod am i Lywodraeth Cymru dalu eich Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd ar eich rhan.
7. Rhaid i'r cyfarpar rhyngrwyd a osodir drwy'r cynllun grant aros ar y safle ac nid oes modd ei symud i rywle arall.

Ni wneir unrhyw daliad gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cynllun Allwedd Band Eang Cymru tan y byddwch wedi bodloni'r meini prawf canlynol:

- Rydych chi wedi derbyn, llofnodi a dychwelyd eich Llythyr Cynnig Arian.
- Mae'r gwaith o osod eich gwasanaeth band eang wedi'i gwblhau ac mae gennych wasanaeth band eang cymwys sy'n gweithio yn unol â'ch llythyr cynnig arian.
- Rydych chi wedi cyflwyno ffurflen gais wedi'i llenwi gyda'r wybodaeth gywir i'w chefnogi – caiff y ffurflen gais ei darparu pan gyhoeddir y Llythyr Cynnig Arian.
- Rydych chi wedi cyflwyno prawf cyflymder band eang gyda dyddiad electronig gan wefan profi cyflymder fel www.speedtest.net (mae gwefannau eraill ar gael) yn cadarnhau bod y gwasanaeth band eang cymwys wedi'i gysylltu ac yn gweithio'n iawn. Dylai hwn fod wedi'i argraffu ar eich safle gyda'ch llofnod chi a'r dyddiad arno. Rhaid i ganlyniadau argraffedig y prawf cyflymder ddangos y cyfeiriad IP, y dyddiad a'r amser, y cyflymder lawrlwytho, y cyflymder lanlwytho a'r oedi. **Noder:** Ni chaiff dyddiadau calendr ac amserau cyfrifiaduron personol eu hystyried fel tystiolaeth ddigonol ar gyfer dilysu prawf.
- Rydych chi wedi cyflwyno copi o anfoneb gan eich Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd ar bapur â phennawd yn dangos enw'r cwmni wedi'i gyfeirio at yr ymgeisydd yn y safle gosod. Rhaid i'r anfoneb nodi'n glir y costau gosod a chytundeb y pecyn gwasanaeth. Rhaid i'r anfoneb ddangos hefyd rif(au) cyfres y cyfarpar a osodwyd yn y safle gosod.
- Rydych chi wedi cwblhau'r manylion banc ar gyfer eich Darparwr Gwasanaeth.

Os na chaiff yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani ei darparu, fe fydd yna oedi wrth brosesu eich cais. Ni allwn gwblhau eich cais hyd nes y byddwn wedi derbyn yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Os nad ydym yn derbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdani, mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i wrthod eich cais.

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41670